



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Gwerthuso Y Cyfnod Sylfaen Canfyddiadau Allweddol ar Blant a Theuluoedd

Crynodeb o'r Ymchwil

Mae'r Cyfnod Sylfaen (cyflwynwyd yn 2008) yn darparu cwrwllwm arbrofol sy'n briodol yn ddatblygiadol i blant 3-7 oed yng Nghymru. Nod y gwerthusiad annibynnol (dan arweiniad WISERD), a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, yw gwerthuso pa mor dda y caiff ei roi ar waith, beth fu ei effaith, a ffyrdd o'i wella. Mae'r gwerthusiad tair blynedd yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cymysg ar raddfa genedlaethol a lleol.

Mae hwn yn un o bedwar papur sy'n canolbwyntio ar **weithredu**. Mae'n defnyddio 239 o arsylwadau ystafelloedd ddosbarth/lleoliadau, 341 o gyfweiliadau ag ymarferwyr, 604 o ymatebion gan ysgolion/lleoliadau a 671 o ymatebion arolwg Blwyddyn 2, 1,008 o ymatebion i'r arolwg rhieni/gofalwyr, 37 o gyfweiliadau Awdurdod Lleol, pedwar cyfweiliad â sefydliadau nas cynhelir a gwaith uniongyrchol gyda phlant.

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 94/2014

Canfyddiadau Allweddol

- Roedd mwyafrif y **rhieni/gofalwyr yn cytuno ag egwyddorion y Cyfnod Sylfaen**, ac yn dweud yn gyffredinol eu bod yn fodlon iawn ar addysg eu plentyn.
- Er ei fod yn nod craidd y Cyfnod Sylfaen, ar y cyfan, **nid yw'n ymddangos bod perthynas rhieni/ysgolion wedi newid** o ganlyniad i'w gyflwyno (mae'r sefyllfa yn parhau i fod yn debyg i'r sefyllfa yng Nghyfnod Allweddol 1).
- Fodd bynnag, **dywedodd rhieni/gofalwyr eu bod yn eithaf gwybodus** am egwyddorion y Cyfnod Sylfaen (er bod 72% ohonynt wedi dweud yr hoffent gael rhagor o wybodaeth, yn bennaf gan ysgol eu plentyn/gan y lleoliad nas cynhelir a ariennir).
- **Gwelwyd yn aml bod plant yn cymryd rhan mewn cynnal y Cyfnod Sylfaen o ddydd i ddydd** trwy rolau/cyfrifoldebau dyddiol a chynllunio ar y cyd, ond **arsylwyd ar ddysgu wedi'i ysgogi gan oedolion yn amlach** na dysgu wedi'i ysgogi gan blant.
- Mae arsylwadau, teithiau ystafell ddosbarth Blwyddyn 1 a thrafodaethau grwpiau ffocws Blwyddyn 2 yn awgrymu bod cysylltiad cadarnhaol rhwng addysgeg y Cyfnod Sylfaen a **mwynhad a brwdfrydedd plant i ddysgu**.

Canfyddiadau Allweddol Pellach

Ymglymiad a barn rhieni/gofalwyr

Mae data'r arolwg cenedlaethol yn dangos nad yw penaeithiad ac arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn gyffredinol yn gweld bod rhieni/gofalwyr wedi cael eu **cynnwys rhyw lawer mewn gweithredu'r** Cyfnod Sylfaen.

Anaml y cafodd rhieni/gofalwyr eu harsylwi neu y dywedwyd eu bod yn cael eu cynnwys mewn **rhedeg y Cyfnod Sylfaen o ddydd i ddydd** chwaith.

Mewn lleiafrif yn unig o'n hysgolion astudiaeth achos y dywedwyd bod rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan mewn sesiynau **cynllunio gweithgareddau**.

Yn unol â'r hyn a adroddwyd yn y *Canfyddiadau Allweddol ar Effeithiau a Adroddwyd*, dywedodd 54% o ymatebwyr i'r arolwg rhieni/gofalwyr eu bod yn **fodlon iawn ar addysg eu plentyn** yn y Cyfnod Sylfaen, dywedodd 35% ohonynt eu bod yn fodlon, roedd

8% ohonynt yn niwtral a 3% yn anfodlon neu'n anfodlon iawn.

Roedd rhieni/gofalwyr yn gefnogol iawn i'r Cyfnod Sylfaen gan ei fod yn **'amrywiol a diddorol'**, **'archwiliol ac ymchwiliol'** ac **'yn ymdrin ag ystod eang o sgiliau'**.

Roedd llai o gymorth (er yn sylweddol o hyd) ar gyfer **'rhoi dewis i blant yn eu dysgu'** a gallu **'dysgu ar eu cyflymdra eu hunain'** (roedd rhieni plant sy'n mynychu lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn fwy cefnogol i'r egwyddorion hyn).

Roedd 24% o benaeithiad yn credu bod **rhieni/gofalwyr wedi bod yn groesawgar iawn i'r Cyfnod Sylfaen**, roedd 56% ohonynt yn credu bod rhieni/gofalwyr wedi bod yn eithaf croesawgar a dywedodd 20% ohonynt fod rhieni/gofalwyr wedi mynegi ychydig o wrthwynebiad¹.

Dywedwyd bod rhieni/gofalwyr plant sy'n mynychu lleoliadau nas

¹ Roedd data'r arolwg ar gyfer lleoliadau nas cynhelir a ariennir yn debyg, er bod 10% yn llai o arweinwyr lleoliadau yn credu bod rhieni/gofalwyr wedi mynegi rhywfaint o wrthwynebiad.

cynhelir a ariennir **ychedig yn fwy croesawgar** i'r Cyfnod Sylfaen na rhieni/gofalwyr plant sy'n mynychu ysgolion.

Ymglymiad a barn plant

Yn unol â'r hyn a adroddwyd yn y *Canfyddiadau Allweddol ar Addysgeg a Dealltwriaeth*, dywedodd 57% o'r athrawon y gwnaethom arsylwi arnynt eu bod yn ymdrechu'n sylweddol i **gynnwys plant yn eu cynllunio**.

Dywedodd 64% o'r plant a gymerodd ran yn arolwg Blwyddyn 2 eu bod yn hoffi'r ysgol 'yn fawr', a dywedodd rhwng 55% a 58% eu bod yn hoffi gwaith darllen, ysgrifennu a rhif 'yn fawr'. Dywedodd plant yn gyffredinol hefyd eu bod yn hoffi holi cwestiynau yn y dosbarth, eu bod yn ymddwyn yn dda ac yn ceisio gwneud eu gorau yn yr ysgol.

Dywedodd disgyblion Blwyddyn 2 yn y Cyfnod Sylfaen y gwnaed arolwg ohonynt yn 2012/13 eu bod yn **hoffi'r ysgol yn fwy** na disgyblion Blwyddyn 2 Cyfnod Allweddol 1 y gwnaed arolwg

ohonynt yn 2008 (hefyd yng Nghymru) fel rhan o Astudiaeth Carfan y Mileniwm².

Soniodd **merched** yn gyffredinol am agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddysgu na bechgyn, a soniodd **plant sy'n darllen yn rheolaidd gartref gydag oedolyn** am agweddau mwy cadarnhaol tuag at ddysgu na phlant nad oeddent yn gwneud hynny.

Yn unol â'r hyn a adroddwyd yn y *Canfyddiadau Allweddol ar Ymglymiad a Lles Plant*, sylwyd yn gyffredinol bod plant yn **mwynhau ac yn dangos diddordeb mewn dysgu yn fwy pan oedd addysgeg allweddol y Cyfnod Sylfaen yn cael ei defnyddio** (e.e. dewis i blant a dysgu arbrofol).

Pan ofynnwyd yn y trafodaethau grwpiau ffocws beth oedd **orau ynghylch bod ym Blwyddyn 2**, yr atebion mwyaf cyffredin (yn eu trefn) oedd 'dewis', 'cyfleoedd creadigol' a 'mathemateg'. Pan ofynnwyd iddynt beth oedd **anoddaf ynghylch bod ym**

² Mae Astudiaeth Carfan y Mileniwm (MCS) yn brosiect ymchwil yn dilyn bywydau tua 19,000 o blant a anwyd yn y DU yn 2000-01.

Mlwyddyn 2, yr atebion mwyaf
cyffredin (yn eu trefn) oedd
'mathemateg', 'sillafu/ysgrifennu' a
'chanolbwyntio am gyfnod hir'.

Awduron: Samuel Waldron, Mirain
Rhys, Chris Taylor (Prifysgol
Caerdydd)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth
Cymru, 11 Tachwedd 2014

ISBN: 978-1-4734-2243-8

© Hawlfraint y Goron 2014



Pob cynnwys ar gael o dan y
Drwydded Llywodraeth Agored
v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel
arall.

[http://www.nationalarchives.gov.uk/
doc/open-government-
licence/version/3/](http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/)